

# **Datganiad Mabwysiadu**

## **Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri 2016- 2031**

### **Chwefror 2019**

#### **Cefndir**

Yn unol â gofynion Rheoliadau 25 (2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, 25 (E) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiedig) 2015 a Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Mabwysiadu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Eryri.

Mae Rhan 1 o'r datganiad yn ymdrin â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiedig) 2015 a bod Rhan 2 yn cyd-fynd â gofynion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

#### **Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig**

Ar 6ed Chwefror 2019, mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 (y CDLI) diwygiedig ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y CDLI mabwysiedig yn ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal.

Mae'r CDLI diwygiedig wedi disodli Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022 presennol fel y cyd-destun polisi ar gyfer asesu cynigion datblygu ym Mharc Cenedlaethol Eryri, hyd at 2031.

Bydd copïau o'r CDLI Eryri (2016-2031) mabwysiedig, gan gynnwys ei Fap Cynigion, ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Llanrwst, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy ac yng Nghanolfan Croeso yr Awdurdod ym Metws y Coed yn ystod oriau agor arferol. Maent hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod [www.eryri.llyw.cymru](http://www.eryri.llyw.cymru).

*Yn ychwanegol at y cynllun a fabwysiadwyd, cyhoeddwyd y dogfennau canlynol ac maent hefyd ar gael ar ffurf electronig yn y lleoliadau uchod:*

- Adroddiad yr Arolygydd (ac ar ffurf copi caled).
- Yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) (ar gael ar lein).
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ar gael ar lein).
- Datganiad Mabwysiadu (ac ar ffurf copi caled).
- Yr Adroddiad Ymgynghori (ar gael ar lein).

Fe all person sydd wedi'i dramgwyddo gan y CDLI diwygiedig sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu na chydymffurfiwyd gydag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â mabwysiadu'r CDLI diwygiedig, o fewn chwe wythnos i'r 14eg Chwefror 2019 wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

## **Rhan 2 - Datganiad Mabwysiadu Asesiad Amgylcheddol**

Pan fabwysiedir cynllun mae'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn mynnu bod datganiad yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu'r wybodaeth a ganlyn:

- i. Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hymgorffori i mewn i'r cynllun neu'r rhaglen;
- ii. Sut yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol (Adroddiad yr AC / AAS);
- iii. Sut mae'r safbwyntiau / barn a fynegwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriadau ar y cynllun / rhaglen a'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael eu hystyried;
- iv. Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy; ac
- v. Y camau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen.

Bydd pob un o'r materion uchod yn cael sylw yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, dylid nodi, er y bydd y ddogfen hon yn gosod y sefyllfa mewn perthynas â hwy, nid yw'n ailadrodd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn nogfennau'r CDLI cyhoeddedig neu'r dogfennau AC / AAS.

Mae deddfwriaeth gynllunio hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Datblygu yn ddarostyngedig i Werthusiad Cynaliadwyedd ehangach ac mae canllawiau CDLI yn argymhell bod y wybodaeth uchod wedi'i hymgorffori yn natganiad mabwysiadu'r CDLI.

Roedd y CDLI hefyd yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Adroddwyd yr asesiad hwn a'r atodiad dilynol ar wahân. Asesodd yr ArhC effeithiau'r Cynllun ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill ar safleoedd gwarchod natur dynodedig Ewropeaidd. Fe wnaeth yr ArhC gefnogi'r CDLI Adneuo a chynhyrchwyd atodiad ar gyfer y Newidiadau Ffocws a'r Newidiadau Materion a Godwyd, gellir gweld y dogfennau yn y manau a amlinellir yn Rhan Un o'r Datganiad hwn.

### **i) Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun**

Er mwyn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y cynllun, mae pob cam o'r broses benderfynu wedi cael ei hysbysu gan waith yr AC / AAS. Cynhaliwyd y gwaith AC / AAS gan yr Awdurdod a chynhaliwyd yr ARhC gan DTA consultants. Mae'r wybodaeth berthnasol ym mhob cam o broses y cynllun wedi'i gynnwys yn y set gyflawn ganlynol o ddogfennaeth AC / AAS gyhoeddedig.

#### Ailystyried y AC

- Ailystyried y AC a'r ARhC - roedd hyn yn destun ymgynghoriad gyda'r ymgynghoreion statudol yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2016.

#### Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu

- Adroddiad Cwmpasu Asesiad Cynaliadwyedd wedi'i Ddiweddarau Gorffennaf - Medi 2016.

## Cyfnod Ymgynghori Adneuo

- Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cyfrol 1 a 2: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri (Gorffennaf 2017)
- Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Crynodeb an-nehchnegol: Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Gorffennaf 2017)
- Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) (Gorffennaf 2017)

## Newidiadau Ffocws

- Adendwm Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol: Asesiad o Newidiadau Ffocws (Mawrth 2018)
- Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Asesiad o Newidiadau Ffocws (Mawrth 2018)

## Newidiadau Materion a Godwyd

- Adendwm Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol: Asesiad o Newidiadau Materion a Godwyd (Medi 2018)
- Rheoliadau Cynefinoedd: Asesiad ar Newidiadau Materion a Godwyd (Medi 2018)

Mae'r CDLI diwygiedig hefyd wedi cael ei baratoi yn unol â Phwrpasau Statudol y Parc Cenedlaethol. Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn darparu datganiad clir o gyfrifoldebau a rôl statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Sef:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc.

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd hefyd wrth ddatblygu'r pwrpasau hyn, i:

- Geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol o fewn ardal y Parc.

Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol wedi darparu ffocws strategol pwysig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, ac wedi cynorthwyo i ddiffinio'r cwmpas ar gyfer datblygu yn yr ardal yn y dyfodol ac o ran sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun. Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yng ngweledigaeth, amcanion y CDLI ac yn y polisiau strategol. Mae gofynion Lles Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

### **ii) Sut yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol (Adroddiad y AC / AAS);**

Datblygwyd Adroddiad y AC / AAS (Adroddiad Amgylcheddol) a'r CDLI diwygiedig ochr yn ochr, gyda phob cam o'r AC / AAS yn hysbysu a dylanwadu ar ddilyniant y CDLI.

## Ailystyried y AC

Roedd ailystyried y AC yn cynnwys adolygiad o'r fframwaith arfarnu cynaliadwyedd i sicrhau ei fod yn dal i fod yn fframwaith priodol i'w ddefnyddio wrth symud ymlaen gyda'r adolygiad o'r CDLI.

Ar ôl ailystyried yr AC o ran y meysydd posibl ar gyfer newid fel yr amlinellwyd yn adroddiad yr adolygiad, ystyriwyd nad oedd angen diwygio amcanion yr AC ac nad oedd unrhyw fwlch yn yr amcanion y byddai angen eu llenwi er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n gynaliadwy wrth fynd ymlaen. Felly, daethpwyd i'r casgliad y byddai unrhyw bolisiau newydd yn gallu cael eu hystyried yn erbyn y Fframwaith AC presennol. Ymgynghorwyd â'r ymgynghoreion statudol ar y sail hon a chytunwyd y gellid defnyddio'r fframwaith presennol.

### Ymgynghoriad Adroddiad Adolygu - Adroddiad Cwmpasu'r AC

Ymgwymerwyd gydag ymgynghoriad 5 wythnos ar yr Adroddiad Cwmpasu AC wedi'i ddiweddaru ac roedd yr Adroddiad Adolygu allan i ymgynghori arno o fis Gorffennaf - Medi 2018. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu wedi'i ddiweddaru yn cynnwys Adolygiad o'r cynlluniau, polisiau a'r rhaglenni perthnasol gan sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn cynlluniau, polisiau a rhaglenni Rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wedi cael eu hystyried a bod unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI a'r broses AC wedi cael eu hystyried.

### Y Cam Adneuo

Aseswyd y newidiadau arfaethedig yn erbyn fframwaith y AC. Nodir y prif newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r broses AC / AAS yn Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Cyfrol 1 a 2 ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (Mawrth 2009). Roedd Dyraniadau Safleoedd y CDLI newydd hefyd yn ddarostyngedig i Werthusiad Cynaliadwyedd.

### Newidiadau Ffocws

Ystyriwyd sylwadau ar y CDLI adneuo diwygiedig a nodwyd nifer o newidiadau i'r CDLI Adneuo diwygiedig. Cafodd y newidiadau hyn, a elwir yn Newidiadau Ffocws, eu hasesu unwaith eto drwy'r broses AC / AAS ac mae'r canlyniad yn yr Asesiad Cynaliadwyedd ac yn yr Atodiad sy'n cynnwys yr Adroddiad ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol - Newidiadau Ffocws Arfaethedig.

### Newidiadau Materion a Godwyd

Cynigiodd yr Awdurdod gyfres o newidiadau pellach mewn ymateb i faterion a godwyd trwy gyfrwng y broses archwilio gan yr Arolygydd a chyfranogwyr yn y sesiynau gwrandawriad. Gelwir y rhain yn Newidiadau Materion a Godwyd ac roeddynt yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Roedd y Newidiadau Materion a Godwyd yn sail i'r Newidiadau Materion a Godwyd a nodir yn Atodiad A o Adroddiad yr Arolygydd. Wrth argymhell y Newidiadau Materion a Godwyd, rhoddodd yr Arolygydd ystyriaeth i'r materion AAS / AC a daeth i'r casgliad fel a ganlyn: **'Rwy'n fodlon bod y newidiadau hyn yn unol â sylwedd y Cynllun cyffredinol a'i bolisiau, ac nid ydynt yn taseilio'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) a'r broses gyfranogol a ymgwymerwyd â hi.'** Mae canfyddiadau cyflawn yr Arolygydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad i'r Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2016 -2031.'

## Adroddiad AC Terfynol

Cynhyrchwyd yr Adroddiad AC terfynol sy'n ymgorffori Adroddiad AC a gynhyrchwyd ar gyfer y Cynllun Adneuo, yr Adendwm AC ar y Newidiadau Ffocws, a'r Adroddiad AC ar y Newidiadau Materion a Godwyd. Gellir gweld hyn yn y lleoliadau a amlinellir yn Rhan Un y Datganiad hwn.

### iii) **Sut y mae'r safbwyntiau / farn a fynegwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriadau ar y cynllun / rhaglen a'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael eu hystyried**

Mae'r Adroddiad AC / AAS wedi bod yn ddarostyngedig i'r prosesau ymgynghori priodol ac fe'i paratowyd yn unol â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni. Ar gyfer AC / AAS, mae gofyniad statudol i ymgynghori ag awdurdodau â chyfrifoldebau amgylcheddol, sef, Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW. Yn ogystal, mae ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliad â diddordeb hefyd wedi digwydd yn ystod y camau priodol hyn.

## Ailystyried yr AC

Fe aeth yr Ail ystyriaeth i'r AC allan i'r ymgynghoreion statudol am gyfnod ymgynghori yn ystod Ebrill 2016 er mwyn cael sylwadau ac adborth ynghylch a oedd y fframwaith AC presennol yn addas i'r pwrpas. Nid oedd gan Cadw unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud a chytunodd CNC gyda'r casgliad y gellid dal i ystyried bod fframwaith gwreiddiol yr AC / AAS yn ddilys fel rhan o broses adolygu'r CDLI.

## Ymgynghoriad Adroddiad Adolygu - Adroddiad Cwmpasu'r AC

Mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu ar gyfer y CDLI diwygiedig a sut y cafodd y sylwadau eu hystyried, wedi cael eu cynnwys yn Adroddiad Ymgynghori yr Awdurdod. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd ar y diweddariad o'r Adroddiad Cwmpasu a'r ymateb swyddog i'r sylwadau i'w gweld yn Atodiad A o'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cyfrol 2: Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Gorffennaf 2017).

## Y Cam Adneuo

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo diwygiedig ac ar yr Adroddiad AC / AAS ac argymhellion yr Awdurdod ar sut yr ystyriwyd y rhain ac unrhyw newidiadau arfaethedig wedi'u cynnwys yn Adroddiad Ymgynghori yr Awdurdod.

## AC Newidiadau Ffocws

Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynllun adneuo, cynhaliwyd cyfres o newidiadau penodol. Roedd Adendwm Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ystyried y newidiadau arfaethedig i CDLI Eryri ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr Ymgynghoriad y Newidiadau Ffocws.

## AC Newidiadau Materion a Godwyd

Nodwyd newidiadau arfaethedig pellach mewn ymateb i'r camau a gytunwyd yn ystod y Sesiynau Gwrandawriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r broses yr archwiliad.

Roedd y Newidiadau Materion a Godwyd (NMG) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (Medi 2018 - Hydref 2018). Ystyriodd yr Adendwm Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd y diwygiadau arfaethedig ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**iv) Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau amgen eraill yr ymdriniwyd â hwy**

Fel y dangoswyd yn Adroddiad yr Adolygiad, roedd Strategaeth y CDLI sy'n sail i'r Cynllun yn parhau i gael ei ystyried yn gadarn ac wrth ymgymryd â'r AC / AAS ar y Cynllun diwygiedig ni ystyriwyd bod angen cynhyrchu strategaethau amgen. Cynhaliwyd asesiad AC / AAS ar bolisiâu newydd neu ddiwygiedig o'i gymharu â llinell sylfaen o "wneud dim" yn seiliedig ar bolisiâu'r cynllun presennol. Nodir canlyniadau'r asesiad o'r CDLI diwygiedig a'i bolisiâu yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Cynaliadwyedd. Mae proses yr AC wedi arwain yr Awdurdod ar yr opsiynau gorau o ran cynaliadwyedd.

**v) Y mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen.**

Mae Rheoliad CDLI 37 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi, ac wedyn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i Lywodraeth Cymru, sy'n ofynnol er mwyn monitro dangosyddion perthnasol yn ogystal â nodi polisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu. Yn ychwanegol at hynny, mae Rheoliad 17 o Reoliadau EAPP, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y cynllun. Bydd y gofynion statudol hyn i fonitro'r cynllun a'i effeithiau amgylcheddol sylweddol yn cael eu cynnal trwy'r AMB gan ddefnyddio Amcanion y AC.

Mae Atodiad 2 o'r CDLI diwygiedig yn cynnwys y Fframwaith Monitro sy'n darparu'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y fframwaith polisi yn y CDLI, fe'i diweddarwyd i adlewyrchu'r newidiadau a gynigir i bolisiâu. Mae Adran 12 o'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol Cyfrol 1 (Gorffennaf 2017) yn cynnwys y tablau sy'n nodi'r Amcanion Cynaliadwyedd a'r Dangosyddion Monitro ar gyfer yr AC / AAS. Mae'r tablau hyn yn nodi'r dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro effeithiau arwyddocaol y CDLI, a hefyd gosod targedau amgylcheddol a data ffynhonnell ar gyfer pob un o'r dangosyddion i ddarparu sail ar gyfer ystyried arwyddocâd unrhyw effaith. Bydd y gwaith o fonitro'r AC / AAS yn rhan o'r AMB cyffredinol ar gyfer y CDLI, ac felly bydd yn cael ei gynnal yn flynyddol.

## **Cyngor Pellach**

Os hoffech gael unrhyw gyngor neu gymorth pellach neu os hoffech gael eich cynnwys ar gronfa ddata ymgynghori'r Awdurdod, cysylltwch â'r Adain Polisi Cynllunio yn:

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LF**

**[polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru](mailto:polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru) 01766 770274**